Teleofal
Telecare

Mae teleofal yn eich galluogi i fyw'n ddiogel ac yn annibynnol

Mae teleofal ar gael i oedolion o unrhyw oed, sydd angen teimlo'n fwy diogel, wedi'u hamddiffyn yn fwy ac yn annibynnol, yn eu cartref eu hunain.

Gall teleofal roi mwy o hyder i chi ynghylch aros gartref ar eich pen eich hun. Os ydych yn ofalwr gall eich sicrhau bod y person rydych yn gofalu amdano yn gallu galw am gymorth, a chael cefnogaeth pan nad ydych ar gael.

Gall fod yn ddefnyddiol iawn i'ch helpu i gael y cymorth priodol yn gyflym.

Gall teleofal eich helpu i aros yn eich cartref eich hun yn hirach.

Beth yw Teleofal?

Mae teleofal yn wasanaeth sy'n defnyddio amrediad o offer i gefnogi pobl a'u galluogi i fod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Mae'n defnyddio synwyryddion a system larwm sy'n cael ei phlygio i soced y ffôn. Mae hon yn rhybuddio gofalwr neu ganolfan ymateb pan fyddwch angen cymorth neu pan fydd rhywbeth wedi'i ganfod, fel nwy yn gollwng neu fwg.

Telecare enables you to live safely and independently

Telecare is available for adults of any age, who need to feel safer, more protected and independent in their own home.

Telecare can give you more confidence about staying at home on your own. If you are a carer it can reassure you that the person you care for can call for help and be assisted when you are not available.

It can be very useful in helping you to get the right assistance quickly.

Telecare can help you to stay in your own home for longer.

What is Telecare?

Telecare is a service that uses a range of Equipment to support people and enable them to be independent in their own homes.

It uses sensors and an alarm system which is plugged into the telephone socket. This alerts a carer or a response centre when you need help or something has been detected such as gas or smoke.

Mae **gwasanaeth teleofal Sir Ddinbych** yn darparu cysylltiad dros y ffôn 24 awr y dydd rhwng eich cartref a **chanolfan fonitro Galw Gofal / Care Connect**.

Sut mae'n gweithio?

Gall y synwyryddion sydd wedi eu gosod nodi os oes problem yn y tŷ fel:

- croniad o nwy wedi dianc o bopty
- llifogydd o dapiau sy'n dal i redeg
- rhan o'r cartref yn rhy boeth (er enghraifft, os yw'r popty wedi'i adael ymlaen).

Gall hefyd ddangos os oes gan berson broblem, fel:

- ar ôl syrthio ac yn methu cael cymorth, neu
- methu codi o'r gwely oherwydd salwch

Beth sy'n digwydd pan fydd y larwm yn canu?

Pan fydd larwm yn dechrau canu, naill ai oherwydd synhwyrydd, neu drwy wasgu eich larwm gwddf personol, byddwch yn cael eich cysylltu'n gyflym â staff sydd wedi'u hyfforddi yn y ganolfan fonitro.

Bydd gan y staff yr wybodaeth a roddwyd gennych pan osodwyd yr offer. Byddant yn gwybod eich enw a'ch amgylchiadau cyffredinol yn syth. Gallant siarad â chi yn uniongyrchol drwy uchelseinydd ar yr uned teleofal i gael

The **Denbighshire telecare service** provides a telephone link 24 hours a day between your home and the **Galw Gofal/Care Connect monitoring centre.**

How does it work?

The installed sensors can indicate if there is a problem in the house such as:

- a build-up of escaping gas from a cooker
- a flood from taps being left on
- part of the home being too hot (for example, if the cooker has been left on).

It can also indicate if a person has a problem, such as:

- having fallen and being unable to get help, or
- being unable to get out of bed due to illness

What happens when the alarm is raised?

When an alarm is triggered, either by a sensor, or by pressing your personal pendant, you will be connected quickly to trained staff at the monitoring centre.

The staff will have the information you provided when the equipment was installed. They will immediately know your name and your general circumstances. They can talk to you directly through a loudspeaker on the Telecare unit to find out what you need and to let you know that help is on its way.

gwybod beth rydych ei angen ac i roi gwybod i chi bod cymorth ar ei ffordd.

Unwaith y bydd y gweithredwr wedi sefydlu pa gymorth rydych ei angen, byddant yn trefnu i rywun ddod i'ch helpu. Gallai hwn fod yn aelod o'r teulu, cymydog, meddyg, un o'r gwasanaethau brys neu ein gwasanaeth ymateb tu allan i oriau.

Faint fydd yn ei gostio?

Codir tâl rhent bychan o £15 fesul mis calendr. Dyma'r taliad safonol am ein gwasanaeth teleofal fesul mis, nid oes unrhyw daliadau gosod neu gynnal a chadw.

DS: Os ydych yn derbyn budd-dal tai (h.y. rydych yn cael arian gan Gyngor Sir Ddinbych i helpu i dalu am eich holl rent neu ran ohono), bydd y taliadau rhent yn cael eu hepgor.

Mae angen llinell ffôn sy'n gweithio gyda soced pŷer trydan gerllaw.

Once the operator has established what help you need, they will arrange for someone to come and help you. This could be a family member, neighbour, doctor, one of the emergency services or our out of hours response service.

How much will it cost?

There is a small rental charge of £15 per calendar month. This is the standard charge for our Telecare service per month, there are no installation or maintenance charges.

NB: If you are in receipt of housing benefit (i.e. you receive money from Denbighshire County Council to help pay for all or part of your rent) the rental charges will be waived.

A working telephone line is required with an electric power socket nearby.

Sut ydw i'n cael mynediad i'r gwasanaeth? Os ydych yn credu y gallwch chi neu rywun rydych yn ei adnabod gael budd o'r gwasanaeth hwn, ewch i'n gwefan: **www.denbighshire.gov.uk/telecare** ...neu cysylltwch â Phwynt Mynediad Sengl Sir Ddinbych: Ffôn 0300 456 1000 Ffacs 01824 712888 E-bost spoa@denbighshire.gov.uk Gwefan www.sirddinbych.gov.uk Neu gallwch ysgrifennu neu alw heibio i'w gweld yn unrhyw un o'u swyddfeydd: SPoA 64 Ffordd Brighton Y Rhyl LL18 3HP SPoA Neuadd y Sir Ffordd Wynnstay LL15 1YN **Gallwn ddarparu'r ddogfen hon mewn ieithoedd ac/neu fformatau eraill ar eich cais. Ffoniwch 0800 032 1099 i gael rhagor o fanylion**	**How do I access the service?** If you think that either you or someone that you know may benefit from this service please visit our website: **www.denbighshire.gov.uk/telecare** ...or contact Denbighshire's Single Point of Access: Phone 0300 456 1000 Fax 01824 712888 Email spoa@denbighshire.gov.uk Website www.denbighshire.gov.uk Or you can write or call in to see them in either of their offices: SPoA 64 Brighton Road Rhyl LL18 3HP SPoA County Hall Wynnstay Road LL15 1YN **This document may be available in other languages and/or formats on request. Please call 0800 032 1099 for further details.**